# Bwrdd Taliadau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Gwener, 21 Mawrth 2014** |
| Amser: | **08.45 - 14.30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:
WRB(24)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Sandy Blair CBE DL (Cadeirydd)**<br>**Mary Carter**<br>**Stuart Castledine**<br>**Monojit Chatterji** |
| Tystion: | **Hannah Beacham, Wragge & Co**<br>**Richard Bettley**<br>**Paul Carberry, Wragge & Co**<br>**Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn**<br>**Charles Willie, Diverse Cymru**<br>**Gareth Watts**<br>**John Chick, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes**<br>**Dominic Houlihan**<br>**Hannah Johnson**<br>**Holly Pembridge, Rheolwr Cydraddoldebau**<br>**Matthew Richards** |
| Staff y Pwyllgor: | **Gareth Price (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)** |

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

1.1 Croesawodd y Cadeirydd y Bwrdd i'r cyfarfod.

1.2 Adolygwyd cofnodion y cyfarfod ar 31 Ionawr 2014 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 2 Materion i wneud penderfyniad yn eu cylch yn sgîl ymatebion i'r ymgynghoriad

2.1 Nododd y Bwrdd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dilyn cyfarfod y Bwrdd ar 31 Ionawr 2014.

2.1 Cyflogau Aelodau'r Cynulliad ar gyfer pumed flwyddyn y Pedwerydd Cynulliad

2.2 Ystyriodd y Bwrdd yr hyn a gyflwynwyd gan Aelodau'r Cynulliad a chytunodd y dylai cyflogau Aelodau'r Cynulliad ar gyfer blwyddyn olaf y Pedwerydd Cynulliad gynyddu 1% yn unol â pholisïau cyflog yn y sector cyhoeddus.

2.2 Cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad – dyfarniad cyflog 2014-15

2.3 Ystyriodd y Bwrdd yr hyn a gyflwynwyd gan staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad a chytunodd y bydd staff cymorth yn cael cynnydd o 1% mewn cyflog yn ystod blwyddyn 2014-15, yn unol â pholisïau cyflog yn y sector cyhoeddus. Cytunodd y Bwrdd y byddai'n edrych yn fanylach ar y materion allweddol canlynol sy'n codi o'r ymgynghoriad fel rhan o'i waith yn y dyfodol:

- A ddylai staff cymorth Aelodau'r Cynulliad fod yn gymwys ar gyfer buddion marwolaeth mewn gwasanaeth
- Dileu swydd a pharhad cyflogaeth
- Gwyliau a dyddiau disgresiwn
- Cyfraniadau pensiwn.

2.3 Newidiadau posibl i'r darpariaethau trosiannol – y grant ailsefydlu ar ôl 2016, eiddo dan forgais

2.4 Ystyriodd y Bwrdd yr hyn a gyflwynwyd gan Aelodau'r Cynulliad a chytunodd i gynyddu'r ad-daliad uchaf ar gyfer llety preswyl ar gyfer yr Aelodau hynny sy'n byw yn yr Ardal Allanol o £700 i £735 y mis. Bydd costau swyddfa yn cynyddu yn unol â rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o Fynegai Prisiau Defnyddwyr (1.9%).

2.5 Cytunodd y Bwrdd i gael gwared ar y grant ymaddasu i Aelodau a etholwyd cyn 2011 sy'n dewis rhoi'r gorau iddi mewn dau gam.

## 3 Materion i benderfynu ac ymgynghori yn eu cylch: Pensiynau

### Adolygiad o'r gwaith hyd yma

3.1 Trafododd y Bwrdd ei gynnydd o ran gweithredu trefniadau pensiwn addas ar gyfer pensiynau Aelodau'r Cynulliad ar gyfer y Pumed Cynulliad, a chytunodd ar ddogfen ymgynghori gyhoeddus, a fyddai'n cael ei chyhoeddi ym mis Ebrill. Dyma fyddai'r rhan gyntaf mewn ymgynghoriad dwy ran, yn ceisio barn rhanddeiliaid am y cynllun yn gyffredinol. Bydd ail ymgynghoriad yn ddiweddarach yn y flwyddyn yn ceisio barn am gynllun mwy manwl.

### Trefniadau Llywodraethu ar gyfer pensiynau Aelodau'r Cynulliad

3.2 Ystyriodd y Bwrdd bapur a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil a chytunodd i ymgynghori ag Ymddiriedolwyr ynghylch trefniadau llywodraethu ar gyfer y cynllun newydd.

### Adroddiad cyfreithiol terfynol gan Wragge & Co.

3.3 Croesawodd y Bwrdd Paul Carberry, Cyfarwyddwr, a Hannah Beacham, Uwchgyfreithiwr, Grŵp Adnoddau Dynol, Wragge & Co. i'r cyfarfod.

3.4 Ystyriodd y Bwrdd adroddiad cyfreithiol terfynol Wragge & Co. a chytunodd ar ei gynnwys.

### Dogfennau ymgynghori terfynol ac ymgyngoreion

3.5 Trafododd y Bwrdd y dogfennau ymgynghori drafft ar drefniadau pensiwn yr Aelodau, a ddarparwyd gan Carys Evans a Richard Bettley. Cytunodd y Bwrdd y byddai modd cyflwyno'r ymgynghoriad ar bensiynau wedi mân newidiadau a awgrymwyd gan Mary a Stuart.

## 4 Archwiliad o weithgareddau a chylch gwaith y Bwrdd

4.1 Gwahoddodd y Bwrdd Gareth Watts, Archwilydd Mewnol, i'r cyfarfod.

4.2 Cytunodd y Bwrdd â'r cynigion ar gyfer archwiliad mewnol a thrafododd cwmpas a methodoleg adolygiad o'r fath.

## 5 Strwythur staffio Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

5.1 Ystyriodd y Bwrdd bapur ar strwythur staffio Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, a ddarparwyd gan Gomisiwn y Cynulliad.

5.2 Cytunodd y Bwrdd y dylid cynnal adolygiad o gyflogaeth a strwythur staffio'r Staff Cymorth ar gyfer y Pumed Cynulliad.

## 6 Asesiad Effaith Cydraddoldeb

6.1 Croesawodd y Bwrdd Charles Willie, Cyfarwyddwr Diverse Cymru.

6.2 Cytunodd y Bwrdd y dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y pecyn Penderfyniad llawn ar gyfer y Pumed Cynulliad. Roedd y Bwrdd yn edrych ymlaen at adolygu cyfraniad Diverse Cymru.

**Cam i'w gymryd**:

- Yr ysgrifenyddiaeth i ysgrifennu at bob Aelod Cynulliad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y materion a drafodwyd a'r penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod hwn, ac yn gofyn iddynt ymateb i'r materion yn y nodyn.
- decisions made by the Board at this meeting and requesting a response to issues raised in the note.